

## Agenda – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd	Llinos Madeley
Dyddiad: Dydd Mercher,	Clerc y Pwyllgor
11 Tachwedd 2015	0300 200 6565
Amser: 09.15	<a href="mailto:Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru">Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru</a>

### Preifat

---

Yn ei gyfarfod ar 21 Hydref 2015, penderfynodd y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod cyfan ar 11 Tachwedd 2015.

#### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.15)

#### 2 Bil Cymru drafft: trafod effaith y Bil ar gymhwysedd deddfwriaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

(09.15 – 10.00)

(Tudalennau 1 – 29)

#### 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): trafod yr adroddiad drafft

(10.00 – 12.30)

Noder: Bydd y Pwyllgor yn cael egwyl rhwng 10.55 a 11.10 ar gyfer y ddwy funud o ddistawrwydd i nodi Dydd y Cofio.

#### 4 Papurau i'w nodi

(12.30)

Cofnodion y cyfarfodydd ar 5 Tachwedd 2015

(Tudalennau 30 – 31)

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(Tudalennau 32 – 38)



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



David Rees AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Caerdydd

30 Hydref 2015

Annwyl David

### **BIL DRAFFT CYMRU**

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr o 21 Hydref yn gofyn am bapur ar sefyllfa'r Llywodraeth ar y bil drafft.

Yn dilyn fy llythyr ar y 23 Hydref ar y mater, rwy'n nawr medru cadarnhau y bydd papur yn cael ei rhannu efo'ch Pwyllgor ond yn anffodus ni fydd yn bosib cwrdd gyda'r amserlen nodwyd yn eich llythyr. Dylai'r papur fod ar gael ar neu ar ôl y 10fed o Dachwedd.

Yn gywir

**CARWYN JONES**



David Rees AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Caerdydd

23<sup>ain</sup> Hydref 2015

Annwyl David

## BIL DRAFFT CYMRU

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr 21 Hydref yn gofyn am papur ar sefyllfa'r Llywodraeth ar y bil drafft.

Rydym mewn trafodaeth gyda'r Llywydd ynglŷn â sut i symud ymlaen gyda threfniadau i roi tystiolaeth i Bwyllgorau. Hyd nes bod hyn wedi cael ei egluro nid wyf yn gallu roi tystiolaeth ysgrifenedig cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 5 o Dachwedd.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd y sefyllfa yn gliriach.

Yn gywir

**CARWYN JONES**



David Rees AM  
Chair, Health and Social Care Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff  
CF99 1NA

Cambrian Buildings  
Mount Stuart Square  
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian  
Sqwâr Mount Stuart  
Caerdydd CF10 5FL

27 October 2015

Dear David,

**Re: Draft Wales Bill: Request for Information**

Many thanks for your invitation to provide evidence to the Committee in relation to your inquiry into the draft Wales Bill published last week.

Unfortunately on this occasion, due to the short timescale, I do not have the required capacity to produce a response.

It is an area that my office will be keeping an eye on and I look forward to hearing the thoughts of the Committee on the draft Bill.

Yours sincerely,

Sarah Rochira  
**Older People's Commissioner for Wales**



# Eitem 4.1

## Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

---

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Tachwedd 2015

Amser: 09.15 – 12.29

### Preifat

---

#### Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	David Rees AC (Cadeirydd) Alun Davies AC John Griffiths AC Altaf Hussain AC Elin Jones AC Darren Millar AC Lynne Neagle AC Gwyn R Price AC Lindsay Whittle AC Kirsty Williams AC
Staff y Pwyllgor:	Llinos Madeley (Clerc) Catherine Hunt (Ail Clerc) Sian Giddins (Dirprwy Clerc) Gareth Howells (Cyngorydd Cyfreithiol)



## **1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## **2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): trafod yr adroddiad drafft**

2.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft. Cytunodd y Pwyllgor i roi ystyriaeth bellach i'r adroddiad drafft yn ei gyfarfod ar 11 Tachwedd 2015.

## **3 Bil Cymru drafft: trafod effaith y Bil ar gymhwysedd deddfwriaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol**

3.1 Ni lwyddodd y Pwyllgor i gyrraedd yr eitem hon. Bydd yn dychwelyd ati yn y dyfodol.

## **4 Papurau i'w nodi**

### **4.1 Cofnodion y cyfarfodydd ar 15 a 21 Hydref 2015**

4.1a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 a 21 Hydref 2015.

### **4.2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

4.2a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol.

### **4.3 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

4.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

### **4.4 Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17: gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid**

4.4a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.



# Eitem 4.2

Mark Drakeford AC / AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-MD-0127-15

David Rees AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

30 Hydref 2015

Annwyl David

## **Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i chi ac i'r Pwyllgor am y cyfle i drafod Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ar 21 Hydref 2015.

Mae'n bleser gennyf ddarparu mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn â'r materion canlynol, a godwyd yn ystod y sesiwn ac yn eich llythyr dilynol, dyddiedig 27 Hydref:

- a) eglurhad ar ba un a fyddai tatŵio, fel y'i diffinnir yn y Bil, yn cynnwys triniaethau tebyg megis 'tashing';
- b) manylion am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu addasu Rhan 4 y Bil (Twill mewn Rhan Bersonol o'r Corff) i gynnwys tyllu'r tafod;
- c) trafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael gyda chyrrff proffesiynol sy'n cynrychioli electrolysis wrth ddatblygu'r Bil, ac ymateb Llywodraeth Cymru i awgrym Sefydliad a Chymdeithas Electrolysis Prydain y dylai ei aelodau gael eu heithrio o'r gofynion trwyddedu o dan y Bil;
- ch) dehongliad Llywodraeth Cymru o'r modd yr ymdrinnid â nifer o sefyllfaoedd o dan Ran 2 y Bil (Tybaco a Chynhyrchion Nicotin); a
- d) diweddariad ar gydsyniadau yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n ofynnol ar gyfer y Bil, o ran Adrannau 4(7), 5(6) ac 11(7), a pharagraffau 6 a 9 o Atodlen 1.

Cyflwynir y wybodaeth hon isod.

## Diffiniad o 'datwio'

Barn Llywodraeth Cymru yw bod y diffiniad presennol o datwio yn ddigon eang i gynnwys triniaethau tebyg megis 'tashing'. 'Tashing' yw'r defnydd o weddillion corfflosgiad yn y weithred o datwio. Ein cred yw y byddai'r llwch yn cael ei ystyried fel "defnydd lliwio" gyda'r bwriad o adael marc lled-barhaol neu barhaol, ac mae felly wedi ei gynnwys yn y diffiniad presennol. Hefyd, pe byddai'r llwch yn cael ei gymysgu gyda lliw arall (llifyn tatw arferol), byddai'r llwch a'r lliw yn cael eu hystyried yn ddefnyddiau lliwio ac wedi eu cynnwys o dan y diffiniad o datwio.

## Tyllu'r Tafod

Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol bod tyllu'r tafod yn digwydd fel arfer yn uniongyrchol drwy ganol y tafod er mwyn gallu gosod gemwaith, o fath tebyg i farbwysau fel arfer. Mae'n driniaeth sydd wedi dod yn fwyfwy poblogaidd yn y blynyddoedd diweddar, ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn dyllu "eithafol" erbyn hyn.

Rwyf wedi dilyn yn ofalus y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1 gan nifer o randdeiliaid a fynegodd farn y dylai'r rhestr o rannau personol o'r corff yn Rhan 4 gael ei hystyried i gynnwys tyllu'r tafod. Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r mater hwn, ac ar y sail y gall tyllu'r tafod achosi cymhlethdodau iechyd penodol a difrod i'r dannedd, gallaf gadarnhau fy mod yn bwriadu cyflwyno gwelliant y Llywodraeth yng Nghyfnod 2 i ychwanegu'r tafod fel rhan bersonol o'r corff yn Rhan 4 y Bil. Byddai hyn yn cael yr effaith o atal cyflawni, neu drefnu i gyflawni, tyllu tafod plentyn o dan un ar bymtheg oed yng Nghymru.

Yn ystod sesiwn y Pwyllgor ar 21 Hydref, cynigiais hefyd egluro fy safbwynt polisi presennol ynglŷn â hollti'r tafod. Mae hollti'r tafod yn fath o addasiad eithafol i'r corff sy'n golygu torri'r tafod trwy'i ganol o flaen y tafod yn ôl cyn belled â'i sail ar ei ochr isaf, gan fforchio'r blaen.

Er nad yw triniaethau sy'n addasu'r corff megis hollti'r tafod wedi eu cynnwys o dan y Bil ar hyn o bryd, byddai'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu, drwy gyfrwng rheoliadau, y rhestr o driniaethau arbennig yn y dyfodol. Bwriad y ddarpariaeth hon yw galluogi'r rhestr i aros yn hyblyg ac ymateb i arferion a thueddiadau cymdeithasol newidiol. Fel y mynegais yn y sesiwn ar 21 Hydref, fy safbwynt presennol yw mai'r hyn sy'n fwyaf priodol fyddai rheoleiddio'r pedair triniaeth sy'n dod o dan y Bil ar hyn o bryd (tyllu'r corff, tatwio, aciwbigo ac electrolysis). Bydd hyn yn cynnwys cyfran uchel o'r triniaethau sy'n cael eu perfformio yng Nghymru ac yn galluogi awdurdodau lleol i sefydlu gweithgaredd gorfodi yn y meysydd hyn i ddechrau. Gellid adolygu'r rhestr a'i haddasu dros gyfnod o amser pe byddai angen, er mwyn ymateb i dystiolaeth a thueddiadau newydd yn y maes hwn sy'n datblygu'n gyflym.

## Electrolysis

Bu fy swyddogion mewn cysylltiad â chyrrff proffesiynol sy'n cynrychioli ymarferwyr electrolysis, megis Sefydliad a Chymdeithas Electrolysis Prydain (BIAE), yn ystod cyfnod datblygu'r Bil. Hysbyswyd y cyrrff hyn am y digwyddiadau ymgynghoriad cyhoeddus ac fe'u gwahodwyd i gyflwyno sylwadau ar y cynigion yn y Papur Gwyn.

Nodaf yr awgrym a wnaed gan BIAE y dylai ei aelodau gael eu heithrio o'r gofynion trwyddedu. Mae adran 49(3) y Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i eithrio unigolion sy'n (a) aelodau o broffesiwn; a (b) wedi eu cofrestru yn rhinwedd eu haelodaeth o'r proffesiwn hwnnw ar gofrestr gymwys. Diffinnir cofrestr gymwys yn adran 49(4) fel cofrestr a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal sydd wedi ei nodi yn y rheoliadau, neu gofrestr wirfoddol sydd wedi ei hachredu gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac sydd wedi ei nodi yn y rheoliadau. Mae'r pŵer i lunio rheoliadau yn adran 49(3) a (4) wedi eu cynllunio i ganiatáu'r hyblygrwydd i eithrio'r proffesiynau hynny sydd eisoes yn ddarostyngedig i drefn reoleiddio gadarn sy'n bodloni neu'n mynd ymhellach na'r hyn sy'n ofynnol gan y darpariaethau trwyddedu triniaethau arbennig.

Er mwyn i aelodau o unrhyw gorff gael eu heithrio o'r gofynion trwyddedu o dan y Bil, byddai'n rhaid i'r drefn reoleiddio berthnasol fodloni'r meini prawf hyn. Mae'r broses hon yn berthnasol i electrolysis yn yr un ffordd ag i driniaethau arbennig eraill megis aciwbigo. Nid wyf yn ymwybodol bod cofrestr wirfoddol BIAE yn bodloni'r meini prawf a eglurir uchod ar hyn o bryd.

### Sefyllfaoedd o dan Ran 2 y Bil (Tybaco a Chynhyrchion Nicotin)

Yn eich llythyr, gofynasoch am fy marn i am sut yr ymdrinnid â nifer o sefyllfaoedd penodol o dan Ran 2 y Bil. Mae fy nehongliad o'r rhain wedi ei egluro isod.

Fel pwynt cyffredinol, mae'r ddogfen Datganiad o Fwriad y Polisi yn gwneud yn glir y bwriad y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan adran 10(1) y Bil er mwyn darparu ar gyfer eithriadau i'r gofynion di-fwg. Bydd y rheoliadau hyn yn destun ymgynghoriad a thrafodaeth. Wrth wneud y rheoliadau, byddwn yn ystyried a oes angen unrhyw eithriadau ar gyfer anheddau preifat a ddefnyddir fel gweithleoedd. Bydd canllawiau yn cyd-fynd â'r rheoliadau i gynorthwyo awdurdodau gorfodi.

Sefyllfa 1 – Clerigwr yn gweithio o'i gartref, yn gweithio oriau 'anniffiniol' oherwydd natur y gwaith.

Mae adran 6 y Bil yn darparu, os na wneir eithriadau perthnasol o dan adran 10, bod rhan o annedd sy'n weithle yn ddi-fwg, ond dim ond yn ystod yr adeg y caiff ei ddefnyddio fel gweithle.

Dim ond pan fyddai'r rhannau perthnasol o annedd y clerigwr yn cael eu defnyddio mewn gwirionedd fel gweithle y byddent yn ddi-fwg felly. Byddai hyn yn cael ei benderfynu drwy ddefnyddio ystyr cyffredin, bob dydd 'cael ei ddefnyddio fel gweithle'. Hyd yn oed pe byddai oriau gwaith unigolyn yn cael eu hystyried yn 'anniffiniol' yn gyffredinol, gallai Llys benderfynu pa un a oedd y fangre, ar ddehongliad cyffredin, yn cael ei ddefnyddio fel gweithle mewn gwirionedd ar adeg benodol.

Sefyllfa 2 – Unigolyn sy'n gweithio o'i gartref rhwng 9am a 5pm, ond sy'n derbyn galwad ffôn sy'n gysylltiedig â gwaith yn ei lolfa am 8pm, ac yn darllen e-byst yn ymwneud â gwaith ar liniadur neu ffôn bob 15 munud yn ystod y nos. Mae'r cartref yn weithle.

Yn yr un modd â Sefyllfa 1, gellid penderfynu a yw ateb galwad ffôn sy'n gysylltiedig â gwaith neu ddarllen e-byst yn ymwneud â gwaith bob 15 munud drwy gydol y nos yn golygu y defnyddir y rhannau perthnasol o'r fangre 'fel gweithle' drwy gyfeiriad at ei ystyr cyffredin, bob dydd. Yn y sefyllfa hon, byddai'r Llys yn ystyried pa un a fyddai derbyn un alwad sy'n gysylltiedig â gwaith yn ddigon i olygu bod y lolfa yn weithle, neu pa un a fyddai darllen e-byst drwy gydol y nos yn ddigon i olygu bod ystafell wely, er enghraifft, yn weithle.

Pe ystyrid bod y lolfa a/neu'r ystafell wely, ar ddehongliad cyffredin, yn cael eu defnyddio fel gweithle, dim ond y rhannau hynny o'r adeilad y byddai'n ofynnol iddynt fod yn ddi-fwg, a dim ond pan fo'r gweithgaredd gwaith perthnasol (derbyn galwad ffôn, darllen e-byst sy'n ymwneud â gwaith) yn digwydd.

Sefyllfa 3 – Sut mae'r Bil yn ystyried Sefyllfa 2 pan fo'r cartref yn fflat stiwdio.

Dim ond pan fyddai'r fangre yn cael ei defnyddio fel gweithle mewn gwirionedd y byddai'n ddi-fwg. Eto, byddai'r mater yn cael ei benderfynu drwy ddefnyddio yr ystyr cyffredin, bob dydd o 'cael ei ddefnyddio fel gweithle'.

Os yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio fel gweithle ac nad oes unrhyw ran ar wahân i'r fflat, byddai'r fflat cyfan yn ddi-fwg, ond dim ond yn ystod yr adeg y caiff ei ddefnyddio fel gweithle. Os oes mwy nag un rhan i'r fflat stiwdio, dim ond y rhan sy'n cael ei defnyddio fel gweithle fyddai'n ddi-fwg.

Sefyllfa 4 - Mae unigolyn yn gweithio o'i gartref, ond nid yw'r gegin yn cael ei defnyddio fel gweithle. Mae'r unigolyn yn ysmygu yn y gegin yn ystod oriau gwaith (sy'n dderbyniol) ond mae mwg yn drifftio o'r gegin i'r rhan o'r cartref sy'n weithle (e.e. dim ond porth bwaog agored sy'n gwahanu'r gegin oddi wrth y gweithle). Mae'r cartref yn weithle.

Mae adran 4 y Bil yn darparu ei bod yn drosedd i ysmygu mewn mangre di-fwg. Mae adran 6(3) yn darparu, o ran gweithleoedd, os mai dim ond rhan o'r fangre sy'n cael ei defnyddio fel gweithle, dim ond i'r graddau hynny y mae'r fangre yn ddi-fwg.

Felly, yn y sefyllfa hon, os ystyrir, ar ddehongliad cyffredin, bob dydd, bod y gegin yn 'rhan' wahanol i'r ystafell gyfagos, ni fydd y gofynion di-fwg yn berthnasol i'r gegin. Fodd bynnag, os ystyrir nad yw'r gegin yn 'rhan' wahanol o'r cartref i'r ystafell gyfagos ar ddehongliad cyffredin, bob dydd, bydd y gofynion di-fwg yn berthnasol i'r gegin.

### Cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol

Ysgrifennodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Prif Weinidog ar 28 Hydref 2015 i ymateb i'n cais ffurfiol am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i'r darpariaethau yn y Bil. Mae'r llythyr yn rhoi'r cydsyniad gofynnol i adrannau 4(7), 5(6) ac 11(7) y Bil a pharagraffau 6 a 9 o Atodlen 1. Rwyf yn cynnwys copi o'r llythyr hwn er gwybodaeth. Fe sylwch fod rhifau'r adrannau a restrir yn y llythyr yn cyfateb i'r darpariaethau yn Neddf Iechyd 2006 lle mae swyddogaethau Gweinidog y Goron yn cael eu diddymu (adrannau 6(8), 7(6) ac 8(7), a pharagraffau 5 ac 8 o Atodlen 1).

Bydd y Prif Weinidog yn ymateb i lythyr yr Ysgrifennydd Gwladol ar y materion y gofynnwyd am eglurhad arnynt cyn bo hir.

Gobeithio bod y wybodaeth a ddarperir yn y llythyr hwn yn ddefnyddiol, ac edrychaf ymlaen at adroddiad y Pwyllgor ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**Mark Drakeford AC / AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Minister for Health and Social Services



Wales Office  
Swyddfa Cymru

**Rt Hon Stephen Crabb MP**  
Secretary of State for Wales

Gwydyr House  
London, SW1A 2NP

Tŷ Gwydyr  
Llundain, SW1A 2NP

1 Caspian Point  
Cardiff Bay, CF10 4DQ

1 Pwynt Caspian  
Bae Caerdydd, CF10 4DQ

[www.walesoffice.gov.uk](http://www.walesoffice.gov.uk)

Rt Hon Carwyn Jones AM  
First Minister  
Welsh Government  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

Ref: 453SUB 15

28 October 2015

Dear Carwyn,

### **Public Health (Wales) Bill**

You wrote to me on 30 September 2015 seeking formal Secretary of State consent to remove Minister of the Crown functions in relation to sections 6(8), 7(6) and 8(7) of the Health Act 2006 and paragraphs 5 and 8 in Schedule 1 to the Act. Having sought the views of the affected departments I am content to provide consent for these provisions.

Since the Bill's introduction, our officials have engaged regularly to determine the impact of your legislation and to understand your wider policy intentions in greater detail. Whilst these discussions have been constructive I understand there remains some concern around your proposals to restrict the use of nicotine inhaling devices, particularly with regards to the Secure Estate and Ministry of Defence (MOD) premises.

The National Offender Management Service (NOMS) considers the availability of electronic cigarettes in prisons to be part of the operational running of safe, decent and secure prisons, not a health care measure. It would therefore expect that electronic cigarettes continue to be available in prison cells as part of its planned move to a smoke free custodial estate. Whilst the statement of policy intent for the Bill makes it clear that prisons will be classed as "exempt premises" in regulations made under section 10 of the Bill, I would welcome your assurance and commitment in this regard. Whilst there is no intention to offer electronic cigarettes to under 18s, I would expect that this exemption would also apply to Youth Offender Institutions (YOI) in Wales. This is to avoid any confusion now and in the future around prisons with a dual designation, such as HMP Parc, for offenders who are over 18 but sentenced to detention in a YOI.

NOMS will be implementing a phased approach to a smoke-free environment in all prisons in Wales (HMPs Cardiff, Swansea, Usk/Prescoed and Parc) from January 2016, with full implementation expected by May 2016. Officials in NOMS have been considering how to approach this difficult issue without risking the operational safety and security of prisons, which is the priority.

I would also welcome your assurance that MOD accommodation (messes and Service Single Living and Families Accommodation), and naval vessels in Welsh waters whilst they are in service, will be also classed as "exempt premises" in regulations made under section 10 of the Bill.

I know our respective officials, and those across Whitehall, have worked hard to resolve issues with the Bill and I am encouraged by the joint working that has taken place. Through further negotiation I am confident that our officials can reach a resolution to the remaining issues in the Bill which will allow you to meet your policy objectives.

I am copying this letter to the Lord Chancellor and Secretary of State for Justice.

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Stephen Crabb". The signature is written in a cursive style with a large initial 'S'.

**Rt Hon Stephen Crabb MP**  
**Secretary of State for Wales**